## Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 – Penderfyniad Caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

**Teitl:** Aráe Lanw Ynysoedd y Moelrhoniaid

**Cymeradwyaeth reoleiddiol:** Trwydded Forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

**Gweithredwr:** SeaGeneration (Wales) Limited (Marine Current Turbines Ltd ac RWE npower renewables)

**Rhif yr Adroddiad:** Penderfyniad Caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol CML1321

**Lleoliad:** Oddi ar arfordir Ynys Môn, gogledd Cymru

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyfateb i benderfyniad caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan Reoliad 22 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â chais a gyflwynwyd gan Sea Generation (Wales) Ltd i amrywio Trwydded Forol 11/17/ML Aráe Lanw Ynysoedd y Moelrhoniaid oddi ar arfordir Ynys Môn, gogledd Cymru.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r penderfyniad caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a wnaed mewn perthynas â chais a gyflwynwyd gan Marine Current Turbines Ltd (MCT) am gymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer Aráe Lanw Ynysoedd y Moelrhoniaid oddi ar arfordir Ynys Môn, Gogledd Cymru. (Bu MCT ac RWE npower renewables yn cydweithio i ddatblygu'r prosiect o dan Gwmni Diben Arbennig Sea Generation (Wales) Ltd).

## Disgrifiad o'r Prosiect

Roedd y caniatâd gwreiddiol yn cynnwys ardal yr aráe rhwng creigiau Ynysoedd y Moelrhoniaid ac Arfordir Gogledd-orllewin Ynys Môn. Roedd hefyd yn cynnwys coridor ceblau a oedd yn dod i'r lan rhwng Trwyn y Gader a Bae Hen Borth. Mae asesiadau ac astudiaethau pellach ar y coridor ceblau ar gyfer y cebl allforio wedi nodi coridor ceblau arall gan ddod i'r lan ym Mae Cemaes.

## Asesiad Priodol ac Elfennau Amgylcheddol Sensitif

Yn dilyn y cyngor a gafwyd yn ystod cam ymgynghori cais Trwydded Forol 11/17/ML, cynhaliwyd Asesiad Priodol ar gyfer y prosiect hwn a oedd yn ystyried y nodweddion sydd wedi'u nodi isod:

Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Feurig, Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid
*Sterna hirundo*)
*Sterna paradisaea*)
*Sterna dougallii*)
*Sterna sandvicensis*)
Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau

*Halichoerus grypus*)
*Tursiops truncatus*)
Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion
*Halichoerus grypus*)
*Tursiops truncatus*)
Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol
*Halichoerus grypus*)
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Gwales
*Morus bassanus*)

Mae’r Asesiad Priodol wedi dod i’r casgliad na fydd y prosiect hwn yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y safleoedd canlynol, yn amodol ar y camau lliniaru a nodwyd a'r amodau a fydd yn cael eu pennu a'u dilyn ar gyfer unrhyw drwydded forol a roddir ar gyfer y prosiect hwn:

Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Feurig, Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid
Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Gwales

Mae’r camau lliniaru a nodwyd yn mynnu bod deiliad y drwydded yn llunio Cynllun Rheoli Addasol a Monitro’r Amgylchedd manwl, ar y sail y bydd rhaid i’r prosiect gau i lawr os bydd morloi llwyd neu ddolffin trwyn potel yn cael ei weld yn ardal y dyfeisiau. Mae angen cytuno â’r awdurdod trwyddedu ar ardal cau i lawr a threfn fonitro ac ymateb gadarn ac addas i’r diben cyn cychwyn ar y gwaith. Mae hyn yn cynnwys manylion a dimensiynau’r ardal cau i lawr o amgylch dyfeisiau, y trefniadau monitro a fydd yn cael eu defnyddio i ganfod a oes mamaliaid y môr yn yr ardal, a manylion ynghylch sut bydd dyfeisiau’n cael eu cau i lawr a’i hailddechrau ar ôl i'r mamaliaid adael yr ardal.

Mae’r camau lliniaru hefyd yn mynnu bod ardaloedd dan waharddiad yn cael eu sefydlu o amgylch ardaloedd lle mae morloi yn gadael y môr dros dro (hauling-out) a safleoedd bridio gwenoliaid y môr, bod y boblogaeth huganod yn cael ei monitro, nad yw'r llwybr ceblau yn cael effaith niweidiol ar Lagŵn Cemlyn, a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal o ran defnyddio llongau â phropelor mewn dwythell. Mae’r holl fanylion wedi’u nodi yn yr Asesiad Priodol, sydd ar gael ar gais gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

Mae’r Asesiad Priodol wedi'i ddiweddaru i gynnwys yr addasiadau i'r llwybr ceblau, ac mae ar gael ar gais gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.

## Ymgynghori

Bu’r Tîm Trwyddedu Morol yn ymgynghori ar y cais amrywio cyntaf ynghyd â hysbysiadau cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2013, ac fe’i hanfonwyd i'r canlynol:
Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd ac Acwafeithrin (Cefas), Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori), Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynllunio), Ystad y Goron, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, Stena Line - Awdurdod Porthladd Caergybi, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Clwb Hwylio Caergybi, Trinity House, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, y Siambr Morgludiant, Ofcom, NATS - NERL Safeguarding, yr Adran Drafnidiaeth, Cyngor Sir Ynys Môn (gan gynnwys y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol), y Gymdeithas Cadwraeth Forol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, yr Ymddiriedolaethau Natur, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cronfa Byd Natur y Byd, Llywodraeth Cymru: Swyddogion Gorfodi Morol, Cangen Ynni, Cadw.

Ymgynghorwyd â'r un bobl ag yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer y Cais am Drwydded Forol 11/17/ML

**Cynhaliwyd ymgynghoriad arall ym mis Tachwedd 2011 ar ôl cyflwyno gwybodaeth atodol, dyddiedig 29/10/2013, a gyflwynwyd ar ôl cael, ystyried a phenderfynu ar sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori). Ymgynghorwyd eto â phawb a wnaeth sylwadau am y cais gwreiddiol i amrywio.**

Cymerwyd yn ganiataol nad oedd gan yr ymgynghoreion nad oeddent wedi ymateb unrhyw sylw.

Cafodd y Cais am Drwydded Forol a'r wybodaeth amgylcheddol atodol eu hysbysebu fel y nodir isod, er mwyn rhoi cyfleoedd i bartïon â diddordeb gyflwyno eu safbwyntiau am y cais, yn ôl yr angen:

Bangor and Anglesey Mail – Hysbysiad Olaf 24/07/2013 a 31/07/2013
Independent – Hysbysiad Olaf 24/07/2013 a 31/07/2013
Lloyds 22/07/2013 a 29/07/2013
London Gazette – 30/07/2013 a 05/08/2013
Roedd gwybodaeth am y cais ar gael hefyd yn Llyfrgell Caergybi, Newry Fields, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1LA.

## Gwerthusiad Rheoleiddiol a phenderfyniad caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Wrth ystyried y cais ar gyfer Aráe Lanw Ynysoedd y Moelrhoniaid, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol: y camau lliniaru a'r datganiad amgylcheddol, yr wybodaeth amgylcheddol atodol a gafwyd gan yr ymgeisydd ac esboniadau pellach, darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a deddfwriaeth berthnasol arall, a'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Drwy ystyried y rhain yn drylwyr, mae asesiad llawn a manwl wedi'i wneud o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posib y cynigion ar fodau dynol, ffawna a fflora, priddoedd, dŵr, y tirlun, asedau sylfaenol a threftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys unrhyw risg i gymeriad safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth Ewropeaidd a rhywogaethau a chynefinoedd Ewropeaidd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau canfyddiadau'r datganiad amgylcheddol, sy'n cael eu hategu gan y wybodaeth amgylcheddol atodol, yn amodol ar gynnwys mewn unrhyw drwydded forol a roddir yr amodau a bennir yn sgil yr ymgynghoriad, a chydymffurfio â'r amodau hynny. (I adolygu'r amodau a bennwyd, gweler Trwydded Forol CML 1321).

Ar ôl asesu'r cais yn llawn, rydym yn dod i'r casgliad na fydd y prosiect hwn yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Yn unol â hynny mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, yn dod i'r casgliad y gellir rhoi penderfyniad caniatâd ffafriol o ran Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i SeaGeneration (Wales) Ltd.

## Llofnodi

**Cynhyrchwyd gan**: Zoe McMellin – Y Tîm Trwyddedu Morol

**Llofnod:** 

**Dyddiad:** 28 Mawrth 2014

**Cymeradwywyd gan**: **Llofnod:**

**Dyddiad:**